Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Cryno ar yr Arolygiad

## Tŷ Grosvenor
## Dyddiad yr arolygiad: 25, 26 a 27 Ebrill 2022
## Dyddiad cyhoeddi: 28 Gorffennaf 2022



Mae'r ddogfen gryno hon yn rhoi trosolwg o ganlyniad yr arolygiad



978-1-80364-594-0

Gwelsom fod y staff yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel. Roedd protocolau addas ar waith i reoli risgiau, iechyd a diogelwch, a heintiau.

Roedd gwelliannau wedi'u gwneud mewn nifer o feysydd ers ein harolygiadau blaenorol yn yr ysbyty. Roedd hyn yn cynnwys gwell goruchwyliaeth o faterion clinigol a gweithredol gan uwch-reolwyr.

Gwnaethom nodi meysydd i'w gwella, ond ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau.

Sylwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.



# Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn ar sut rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad iechyd meddwl annibynnol dirybudd yn Nhŷ Grosvenor ar 25, 26 a 27 Ebrill 2022.

Adolygwyd y wardiau ysbyty canlynol:

- Ward Alwen – 15 gwely un rhywedd yn darparu gwasanaethau adsefydlu dan glo
- Ward Brenig – 15 gwely un rhywedd yn darparu gwasanaethau adsefydlu dan glo.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC, pedwar adolygydd cymheiriaid clinigol (yr oedd un ohonynt yn adolygydd enwebedig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl), ac un adolygydd profiad cleifion. Arweiniwyd yr arolygiad gan uwch-arolygydd gofal iechyd AGIC.

Mae'r fersiwn gryno hon o'r adroddiad wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd.

Mae adroddiad llawn, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac sy'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol, ar gael ar ein gwefan.

# Ansawdd profiad y claf

## Crynodeb cyffredinol

- Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur fod y gofal a'r gwasanaeth a ddarperir gan yr ysbyty naill ai'n dda iawn neu'n dda
- Roedd y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â’r cleifion yn briodol ac yn trin y cleifion ag urddas a pharch
- Roedd ystod o weithgareddau a therapïau addas ar gael i'r cleifion. Gallai'r cleifion ymgysylltu a rhoi adborth i'r staff ar y ddarpariaeth gofal yn yr ysbyty mewn nifer o ffyrdd
- Roedd eiriolwr iechyd meddwl ar gael i'r cleifion a oedd yn darparu gwybodaeth a chymorth ar unrhyw faterion a allai fod ganddynt ynghylch eu gofal.

## Yr hyn a ganfuom a wnaeth y gwasanaeth hwn yn dda

- Roedd penodi cynrychiolwyr cleifion yn fenter gadarnhaol a helpodd i hyrwyddo ymgysylltiad cleifion a sicrhau bod llais y cleifion yn cael ei glywed.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Rhaid gwneud gwaith i wella gwedd yr ardd i gleifion yn ward Brenig
- Rhaid atgyweirio neu newid y popty yn y gegin therapi galwedigaethol yn ward Alwen.

# Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

## Crynodeb cyffredinol

- Roedd yn ymddangos bod y staff yn ymroddedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.
- Roedd cynlluniau gofal a thriniaeth y cleifion yn cael eu cynnal i safon dda ac roeddent yn hawdd eu llywio.
- Roedd ymatebion diogel a therapiwtig ar waith i reoli ymddygiad heriol ac i hyrwyddo diogelwch a llesiant y cleifion.
- Roedd y dogfennau statudol a welsom yn cadarnhau bod y cleifion yn cael eu cadw'n gyfreithiol yn briodol.

- Fodd bynnag, gwelsom nad oedd rhai archwiliadau yn effeithiol o ran nodi gwallau neu feysydd i'w gwella.

### Yr hyn a ganfuom a wnaeth y gwasanaeth hwn yn dda

- Roedd ffocws ychwanegol cadarn ar ofal iechyd corfforol cleifion dan arweiniad y nyrs iechyd corfforol yn yr ysbyty.

### Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Rhaid cwblhau siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaeth i safon uwch a'u harchwilio'n fwy effeithiol
- Rhaid datblygu canllawiau sy'n nodi'r gofynion ar gyfer defnyddio'r Ardaloedd Gofal Ychwanegol yn ddiogel ar bob ward
- Rhaid atgoffa'r staff o bwysigrwydd gwisgo eu larwm personol bob amser.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

### Crynodeb cyffredinol

- Rhoddodd mwyafrif y staff a gwblhaodd holiaduron adborth cadarnhaol ynglŷn â gweithio yn yr ysbyty.
- Roedd prosesau recriwtio yn cael eu cynnal mewn dull agored a theg ac archwiliadau cyflogaeth priodol yn cael eu cynnal cyn dechrau mewn cyflogaeth.

### Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Rhaid parhau ag ymdrechion i recriwtio staff parhaol er mwyn lleihau nifer y staff asiantaeth a ddefnyddir i lenwi rotâu ac i ddarparu sefydlogrwydd a chysondeb yn y gofal a ddarperir i'r cleifion.

**Dywedodd y staff wrthym:**

Gwnaeth y staff y sylwadau canlynol i ni:

> *"Mae'r ysbyty hwn wedi ymrwymo i wella'n barhaus"*
> *"Mae gen i gefnogaeth rheolwyr yn ogystal â chefnogaeth gan gymheiriaid"*
> *"Dwi'n teimlo'n hapus ac yn gyfforddus yn gweithio yma"*

Gwnaeth y staff y sylwadau a ganlyn ynghylch sut y gallai'r lleoliad wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu:

> *"Gwell systemau i gyfleu penderfyniadau a wneir gan y tîm amlddisgyblaethol i'r staff wardiau"*
> *"Gwell cyfathrebu rhwng shifftiau ac adrannau"*

# Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu o fewn atodiadau'r adroddiad arolygu llawn.

Gofynnwn i'r bwrdd iechyd gymryd camau brys pan fyddwn yn nodi pryderon sy'n peri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion. Mae'r pryderon hyn wedi'u hamlinellu yn yr atodiadau ac yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan y bwrdd iechyd i amddiffyn diogelwch cleifion ac sydd wedi'u cymeradwyo gennym ni. Rydym hefyd yn darparu tabl manwl o welliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a gwella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd. Yn ogystal, rydym yn amlinellu pryderon a godwyd ac yn cydnabod y rhai a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.

Ar yr adeg briodol, mae AGIC yn gofyn i'r bwrdd iechyd gadarnhau bod camau wedi'u cymryd yn unol ag ymatebion rheolwyr a ddogfennwyd yn y cynllun gwella. Rydym hefyd yn gofyn i fyrddau iechyd ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'r camau a gymerwyd a/neu'r cynnydd a wnaed.

